

Catchphrase 2004: Ysbyty Brynaber - Week 48

Key language

Mewn/Yn
I gyd
Sy biau/Piau
Adref/Gartref

New Words

Caniad	a call
Cwmni	company
Denu	to attract
Braidd yn brysur	rather busy
Gosod y bwrdd	to set the table
Chwil (NW)	drunk
Amheuan	doubts
Coelio (NW)	to believe
Mynnu	to insist
Ffugio	to fake
Pres (NW)	money
Lluchio llwch i lygaid	to throw dust into one's eyes
Dim clem	no idea
Bwriadu	to intend to
Dod draw	to come over
Arfordir	coast
Cyn belled â	as far as
Garw	rough
Yn enwedig	especially
Beth sy gen ti mewn golwg	what you have in mind
Trwy gydol	throughout
Malu awyr	to talk nonsense
O ddifri	seriously
Chwaith	either
Strôc	a stroke
Pwysedd gwaed	blood pressure
Gollwng	to let go
Arddwrn	wrist
Gynnau fach (SW)	earlier on
Effeithio	to effect
Llawfeddyg	surgeon
Brawychus	frightening

Main Grammatical Points

Mewn/Yn

There are two ways of translating the word **in** in Welsh

Mewn means **in a** or is followed by an indefinite noun

Mae hi'n byw mewn fflat	She lives in a flat
Mae hi mewn cariad gyda Dic Allen	She's in love with Dic Allen
Mae e mewn trafferth	He's in trouble

Yn y means in the

Mae hi'n byw yn y fflat	She's living in the flat
Mae e yn y gegin	He's in the kitchen
Dw i wedi bod yn brysur yn yr ysbyty	I've been busy in the hospital

Note also that when yn refers to a pronoun the forms are

Yno i
Ynot ti
Ynndo fe
Ynddi hi
Ynon ni
Ynoch chi
Ynddyn nhw

I gyd

Brian says: Doedd dim rhaid i ti dalu'r bil i gyd. You didn't have to pay **all** the bill

Note that the expression all always follows the noun in Welsh

Y plant i gyd	all the children
Y bwyd i gyd	all the food
Yr arian i gyd	all the money
Y gwaith i gyd	all the food
Y bobl i gyd	all the people

Learners are tempted to follow the English pattern

I gyd o'r plant all of the children

But this is **not** correct – **i gyd** always **follows** the noun

Sy biau/Piau

Brian says to Jac Whelan:

Yn enwedig gan mai ti sydd biau ei hanner o - specially since you own half of it

Piau to own can be expressed in two ways

Fi sy biau hwn or Fi biau hwn	I own this or this is mine
Ti sy biau or Ti biau hwn?	Is this yours? Answer Ie or Nage
Nid hi sy biau'r got or Nid hi biau'r got	It's not her coat
Fe sy biau'r car or Fe biau'r car	It's his car
Chi sy biau'r cwch? or Chi biau'r cwch?	Is it your boat?
Nid nhw biau'r ty yna or Nid nhw biau'r ty yna	That's not their house

Adref/Gartref

Note the different ways of translating home in Welsh

Mynd adref means going home Dw i'n mynd adref

Gartref however means at home. Mae hi gartref

However there is a general tendency in north Wales to use adref for both

Ysbyty Brynaber: Episode 142

Brian calls in the Yacht Club on his way from work. Arwyn Saunders is there propping up the bar. He's obviously been there for some time.

When he arrives home Brian discusses Arwyn's behaviour with his wife.

Geirfa

Caniad	a call
Cwmni	company
Denu	to attract
Braidd yn brysur	rather busy
Gosod y bwrdd	to set the table
Chwil (NW)	drunk
Amheuan	doubts
Coelio (NW)	to believe
Mynnu	to insist
Ffugio	to fake
Pres (NW)	money
Lluchio llwch i lygaidd	to throw dust into one's eyes

Golygfa 1

Arwyn - Hei! Brian...

Brian - Arwyn, sut wyt ti.

Arwyn - Dere. Diod. Beth wyt ti'n moyn?

Brian - Fiw imi...

Arwyn - Dere mlaen...

Brian - Wir rwan, mi faswn i wrth fy modd. Ond dw i wedi addo i Agnes y bydda i adref am saith...

Arwyn - Dyma ti. Ffôn symudol. Rho ganiad iddi hi nawr a dwed wrthi y byddi di ychydig bach yn hwyr...

Brian - Faswn i wrth fy modd yn aros am un arall, ond dw i wedi addo...

Arwyn - Fydd ddim ots gyda Agnes.

Brian - Bydd, mi fydd...

Arwyn - Dwed dy fod ti'n cadw cwmni i fi. Dwed dy fod ti'n y Clwb Hwyllo yn cadw cwmni i hen ffrind.

Fydd Agnes yn deall yn iawn...

Brian - Un diod. A dim ond un...

Arwyn - Siwr iawn. Beth gymeri di?

Brian - Hanner o lager.

Arwyn - Oi! Benny. Dere â peint o lager i Brian fan hyn...

Brian - Hanner o lager ddwedais i...

Arwyn - Fi sy'n talu. A Benny, dere â gin a tonic arall i fi, dyna fachgen da...

Mae hi'n eitha llawn yma on'd yw hi?

Brian - Mae'r 'happy hour' wastad yn denu criw...

Arwyn - Ydy...

Brian - A diolch am yr wythnos diwetha, gyda llaw...

Arwyn - Wythnos diwetha?

Brian - Ie. Nos lau diwetha. Y restaurant. Doedd dim rhaid iti dalu'r bil i gyd...

Arwyn - Beth yw pryd o fwyd rhwng ffrindiau? Dyma ti. Peint o lager...

Brian - Iechyd da, Arwyn!

Arwyn - A lechyd da i tithe hefyd. Sut mae'r hen long?

Brian - Wedi angori.

Arwyn - Dwyt ti ddim wedi bod mas ar y môr 'te?

Brian - Ddim yn ddiweddar. Dw i wedi bod braidd yn brysur. Sut mae pethau rhwng y Mrs - neu'r ex-Mrs a ti - erbyn hyn?

Arwyn - Oes trwy'r nos gyda ti?

Brian - Mae gen i tan ddiwedd y peint yma.

Golygfa 2

Rhodri - Mae Dadi yn ôl...

Agnes - Wyt ti wedi clywed swm y car, wyt ti?

Rhodri - Ydw. Jest nawr...

Agnes - Rô'n i'n dechrau beco ble roedd e...Wnei di osod y bwrdd i fi, Rhodri? ... Ti yn ôl.

Brian - Fel y gweli di.

Agnes - Ble rwyd ti wedi bod? Ffoniais i'r gwaith a dwedodd Brynmor dy fod ti wedi gadel dros awr a hanner yn ôl...

Brian - Es i draw i weld y Mary Rose a galw yn y Clwb Hwyllo am ddiod...

Agnes - Gyda pwy 'te?

Brian - Wnes i gyfarfod Arwyn Saunders...

Agnes - Arwyn?

Brian - Ac yn ôl yr olwg oedd arno fo, mi faswn i'n dweud ei fod o wedi bod yno bron trwy'r pnawn...

Agnes - Beth? Oedd e'n feddw?

Brian - Ddim mor feddw â hynny. Mae o'n gallu dal ei gwrw yn dda...Ond roedd o'n weddol chwil...Ac yn mynnu siarad am Jenny...

Agnes - Beth nawr eto?

Brian - Mae o'n dal i feddwl ei bod hi'n gweld y boi Richard Allen yna...A'i fod o'n byw hefo hi yn y fflat...

Agnes - O, mawredd! Dydy hynny ddim yn wir. Mae hyd yn oed Jenny wedi dechrau cael amheuan am Richard erbyn hyn...

Brian - Dyna beth ddwedais i wrth Arwyn...

Agnes - A beth ddwedodd e?

Brian - Gwrthod coelio. Mae o'n mynnu fod rhyw 'conspiracy theory' mawr...bod Richard Allen wedi ffugio ei farwolaeth ei hun er mwyn cael pres insiwrans neu rywbeth...

Agnes - Mae e'n siarad dwli...

Brian - Dyna beth ddwedais i wrtho fo..."Ond beth am Dinbych-y-Pysgod, Brian?" Dyna beth ofynnodd o wedyn..."Pam aeth Jenny i Ddinbych-y-Pysgod dros y Flwyddyn Newydd?"

Agnes - A beth ddwedaist ti?

Rhodri - Am pwy ych chi'n siarad?

Agnes - Neb.

Rhodri - Chi'n siarad am Yncl Arwyn ag Anti Jenny on'd ych chi?

Brian - Rhodri, pam ei di ddim i wyllo'r teledu?

Rhodri - Pam ych chi wastad moyn fi mas o'r ffordd?

Agnes - A beth ddwedaist ti?

Brian - Dweud beth sydd wedi bod ar fy meddwl i o'r dechrau...Mae Jenny Saunders yn gweld rhywun arall. Ond ddim Richard Allen ydy o. Wedi defnyddio hynny mae hi i luchio llwch i lygaid pawb...

Agnes - Pam fyddai hi'n gwneud hynny?

Brian - Pam ddim?

Agnes - Beth? Wyt ti'n meddwl ei bod hi'n mynd 'da rhywun rydyn ni'n nabod? A'i bod hi ddim eisiau inni ffeindio mas?

Brian - Mae hi'n bihafio mor ofnadwy o od. Wyt ti'n gallu meddwl am reswm arall?

Ysbyty Brynaber: Episode 143

Brian is on the phone to Jac Whelan. They are discussing what use they might put their newly purchased boat to.

Jenny meets Agnes at the hospital. One of Arwyn's patients has suffered a mild stroke.

Arwyn is at the Yacht Club and is on the phone to his mother.

Geirfa

Dim clem	no idea
Bwriadu	to intend to
Dod draw	to come over
Arfordir	coast
Cyn belled â	as far as
Garw	rough
Yn enwedig	especially
Beth sy gen ti mewn golwg	what you have in mind
Trwy gydol	throughout
Malu awyr	to talk nonsense
O ddifri	seriously
Chwaith	either
Strôc	a stroke

Golygfa 1

Brian - ...oes 'na well signal rwan 'ta?...ydy hynna'n well? Na, mae'r signal ar y ffôn yma'n rhyfedd. Jac...Mae'r tywydd yn effeithio arno fo...Paid â gofyn pam – does gen i ddim clem...Sut mae petha tua Birmingham 'na? A pryd wyt ti'n bwriadu dod draw yma? Na, mae hynna'n siwtio fi i'r dim...Y drwg ydy bod y môr wedi bod braidd yn stormus ers dechrau'r flwyddyn...Dim ond unwaith dw i wedi mynd â'r llong allan...A dim ond ar hyd yr arfordir cyn belled â ... - Jac? Jac? Wyt ti'n dal yna? ...damia las! Helo? Jac? Na fi chwaith, wn i ddim beth ddigwyddodd...Ble oedden ni? Beth rôn i'n ddweud wrthot ti? O, ia...Dw i'n cofio rwan...Ia, dyna ti, mi es i â Rhodri a'r cwch draw at Glogwyn Craig y Wrach ag yn ôl...Ond oedd y môr yn arw ac rôn i'n poeni...Ia, ia...Dw i'n edrych ymlaen i ti gael ei weld o hefyd...Yn enwedig gan mai ti sydd biau ei hanner o...Na, dw i ddim wedi sôn yr un gair wrth Agnes...Nac ydw, siwr iawn, beth wyt ti'n feddwl ydw i? Stiwpid? Na... Ond mae 'na broblem hefo beth sy gen ti mewn golwg, Jac...Oes...Na, na. Hei, hei, araf deg rwan, Jac. Dwyt ti ddim wedi bod yn agos i gwch na llong trwy gydol dy fywyd...Na, dwyt ti ddim yn deall y cwbl...Jac, paid â malu awyr: dwyt ti ddim yn deall dim byd am gychod - dim ond eu bod nhw'n mynd ar y môr... A dw i ddim yn deall digon chwaith...A dim hanner digon ar gyfer beth sydd gen ti mewn golwg...Y cwbl dw i'n ddweud ydy y galla ni fynd i drwbl...Wir i ti rwan, mi alla dau foi sydd ddim yn deall digon fynd i drwbl...Na, dw i'n dweud y gwir, Jac...Mi allet ti a fi fynd i drwbl mawr ar y môr...Ac ydan ni isio hynny ar ben bob dim? Wel, mae'n rhaid inni eistedd i lawr a thrafod a meddwl o ddifri yn does? Ac mae'n rhaid inni feddwl yn ofalus iawn am beth rydyn ni'n mynd i wneud...

Golygfa 2

Jenny - Agnes...
Agnes - Jenny. Ti ar hast wyllt...
Jenny - Wedi cael fy ngalw i fyny i Ward Enlli ôn i i weld... i weld Mrs Eirwen Davies ...
Agnes - Y fenyw sy wedi cael strôc fach?
Jenny - Dyna ti.
Agnes - Pam? Beth yw'r broblem...?
Jenny - Mae hi'n poeni...Poeni y bydd hi'n cael strôc arall...
Agnes - Pwy yw ei doctor hi?
Jenny - Arwyn.
Agnes - A beth yw barn Arwyn?
Jenny - Mae o'n meddwl y bydd hi'n ddigon da i fynd adre.

Agnes - Fyddden i'n tueddu i gytuno. Dwyt ti ddim?
Jenny - Dw i ddim yn gwybod...Dim ond bora 'ma des i ar ei thraws hi...
Agnes - Dw i'n siwr fod Arwyn wedi rhoi 'anticoagulant' iddi...
Jenny - Ydy o?
Agnes - Dw i'n credu ei fod e...
Jenny - Wy'n siwr bydd hi'n iawn. Ond mae angen tawelu ei meddwl hi.
Agnes - Af fi draw i gael gair gyda hi nawr...
Jenny - Faset ti?
Agnes - Wrth gwrs...

Golygfa 3

Arwyn -beth? Sori, Mam, wnewch chi siarad ychydig bach yn uwch, dw i ddim yn gallu'ch clywed chi...Dw i wedi bod yn brysur, Mam....Ydw, lan yn yr ysbyty...Mae llwyth o waith wedi bod ers dechrau'r flwyddyn...Ond dw i'n addo dod draw i'ch gweld chi penwythnos yma... Sori, Mam...Na, rhywbeth nes i fwyta i gino...Ydw i beth? Ydw i wedi gweld Jenny yn ddiweddar? Nac ydw, nac ydw - sa i wedi gweld hi...Mae hi'n gweithio shifftiau gwahanol i fi...Mae hi'n trio cadw mas o'n ffordd i...Cadw mas o'n ffordd i, Mam...Mae Jenny yn cadw mas o'n ffordd i...Wrth gwrs ei bod hi'n gweld rhywun arall...Ydy, wrth gwrs ei bod hi...Mae' hi wedi'n dympe fi am rhyw foi arall...Dyna beth mae pawb yn ddweud wrtho i beth bynnag...A nawr mae hi eisiau'r ty...Ond smo hi'n mynd i gael e...Ddim ar chwarae bach, beth bynnag...

Ysbyty Brynaber: Episode 144

Arwyn and Jenny meet in the hospital canteen. They discuss the patient who has suffered a mild stroke.

Arwyn says that he has no regrets for his behaviour outside Jenny's flat. He again refuses to believe her when she says that she is living alone.

One of Arwyn's patients has suffered a brain haemorrhage. She is undergoing an emergency operation. Arwyn's initial diagnosis might be called into question.

Geirfa

Pwysedd gwaed	blood pressure
Gollwng	to let go
Arddwrn	wrist
Gynnu fach (SW)	earlier on
Effeithio	to effect
Llawfeddyg	surgeon
Brawychus	frightening

Golygfa 1

Arwyn - Ble wyt ti'n mynd? Mas?

Jenny - Ia. Dw i newydd orffen fy nghinio.

Arwyn - Wyt ti'n gweithio y prynhawn 'ma?

Jenny - Nac ydw. Wyt ti?

Arwyn - Ydw. Mae Mrs Eirwen Davies wedi cael strôc fach arall...

Jenny - Eirwen Davies? Ward Enlli?

Arwyn - Dyna ti.

Jenny - Ges i sgwrs hefo Agnes amdani hi ddoe. Sut mae hi?

Arwyn - Eitha da. Strôc fach iawn gafodd hi...

Jenny - Oedd Mrs Davies yn poeni ddoe. Roedd hi'n poeni y basai hi'n cael strôc arall...

Arwyn - Efallai taw dyna beth wnaeth ei achosi fe: poen meddwl a becsio yn codi pwysedd gwaed uchel arni. Ond fel dwedes i: smo hon yn ddim gwaeth na'r strôc gyntaf gafodd hi...

Jenny - Roi di hi ar rhywbeth cryfach na 'anticoagulant' iddi rwan?

Arwyn - Fe allen ni gynyddu'r dos. Ond gaf fi weld....

Jenny - Beth?

Arwyn - Cyn iti fynd...Sa i'n mynd i ymddiheuro i ti am yr wythnos diwetha...

Jenny - Oeddet ti'n lwcus chest ti ddim dy arestio gan yr heddlu...

Arwyn - Fyddai dim ots 'da fi...

Jenny - Gwnest ti lwyddo i ddeffro'r bobl yn y bloc i gyd ...Ac roedd y rheiny hefo plant yn hollol wyllt hefo ti...

Arwyn - Does dim ots 'da fi.

Jenny - Wel, mae ots gen i. Fi ydy'r un sy'n gorfod byw yn y fflat 'na o ddydd i ddydd.

Arwyn - Gyda pwy?

Jenny - Neb.

Arwyn - Neb? Ac wyt ti'n disgwyl i fi gredu bod ti ddim wedi ngadael i am rywun arall?

Jenny - Faset ti ddim yn deall...

Arwyn - Nid Richard Allen yw e...Rybish oedd hynny. Rhywbeth i daflu llwch i'n llygaid i...

Jenny - Am beth ti'n mwyydro?

Arwyn - Rwy'ti'n gweld rhywun arall...Rhywun real...Rhywun go iawn...Ddim boi sydd wedi boddi...Ddim ysbryd...Ond rhywun go iawn...

Jenny - Dydy fy mywyd i yn ddim o dy fusnes di.

Arwyn - Pwy yw e?

Jenny - Gollwng fy arddwrn i...

Arwyn - Ddim tan ddwedi di pwy wyt ti'n weld!

Jenny - Gollwng fy arddwrn i wnei di!

Golygfa 2

Agnes - Arwyn! Arwyn! Aros...

Arwyn - Agnes, beth sydd?

Agnes - Well iti ddod ... glou...

Arwyn - Pam? Beth sy'n bod?

Agnes - Mrs Eirwen Davies...

Arwyn - Beth amdani hi?

Agnes - Mae rhywbeth mawr o'i le...

Arwyn - ...Beth?

Agnes - Mae' nhw'n amau ei bod hi'n cael "brain haemorrhage"...

Arwyn - Wyt ti'n siwr...?

Agnes - Sa i'n gwybod i sicrwydd...Ond dw i'n gwybod i sicrwydd ei bod hi newydd fynd i'r 'operating theatre' tua deg munud nôl...

Arwyn - "Brain haemorrhage?"

Agnes - Ie...

Arwyn - Pryd digwyddodd hyn?

Agnes - Gynnau fach...Ar Ward Enlli...

Arwyn - Wy'n ffael credu'r peth...

Agnes - Mae e ychydig bach yn od, mae'n rhaid i fi gyfaddef.

Arwyn - Dwy strôc fechan gafodd hi - dyna'i gyd. Dôn nhw prin wedi effeithio arni. Rôn i'n barod i'w hala hi gartre'r wythnos nesa A nawr mae hi'n cael "brain haemorrhage."

Agnes - 'Poor dab' â hi...

Arwyn - "Brain haemorrhage?" Dyw e ddim yn gwneud synnwyr...

Agnes - Mae'r peth yn frawychus. Well iti fynd draw i'r theatre...

Arwyn - Pwy yw'r llawfeddyg?

Agnes - Tim Bevan, dw i'n credu.....

Arwyn - Mae hi mewn dwylo da, o leiaf...

Agnes - Ydy. Mae Tim yn un o'r goreuon....

Arwyn - Ond wy'n dal yn methu credu'r peth...

Agnes - Paid â becsu. Wy'n siwr bydd Eirwen Davies yn iawn.

Arwyn - Gobeitho wir y bydd hi'n iawn. Neu fydd fy mhen i ar y bloc.

Agnes - Pam wyt ti'n dweud hynny?

Arwyn - Well i fynd draw i'r 'operating theatre'...

Synopsis

Brian Rees has invited his partner in crime, Jac Whelan, to visit him to discuss their plan for their new boat. It all sounds a bit suspicious!

Following the breakdown of his marriage Arwyn Saunders has taken to drinking heavily. This has had a detrimental effect on his work. One of the patients in his care has suffered a brain haemorrhage. Arwyn is seriously worried:

Test yourself

1. How would you translate 'She's living in a flat' into Welsh?

- a) Mae hi'n byw yn fflat
- b) Mae hi'n byw yn y fflat
- c) **Mae hi'n byw mewn fflat**

2. How would you translate 'all the girls' into Welsh?

- a) i gyd o'r merched
- b) **y merched i gyd**
- c) i gyd y merched

3. What is the Welsh for 'this is mine'?

- a) Fi sy'n cael hwn
- b) Fi sy'n mynd â hwn
- c) **Fi sy biau hwn**

4. What word might you hear in north Wales for 'money'?

- a) pris
- b) **pres**
- c) pwrs

5. How would you say 'I'm going home' in Welsh?

- a) **Dw i'n mynd adref**
- b) Dw i'n mynd gartref
- c) Dw i'n mynd o'r cartref

6. What is the Welsh for 'to talk nonsense'?

- a) ar yr awyr
- b) siarad trwy'r awyr
- c) **malu awyr**